Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Datganiad y Cadeirydd

8 Rhagfyr 2021

"Mae adroddiad Estyn heddiw ynglŷn ag aflonyddu rhywiol ymysg disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru yn syfrdanol. Mae'n ofnadwy gweld bod bron hanner yr holl ddisgyblion wedi cael profiad personol o aflonyddu o'r fath, a dywedodd tri chwarter y disgyblion eu bod wedi gweld disgyblion eraill yn cael eu haflonyddu. Mae'n peri pryder penodol nad yw pobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu rhoi gwybod i rywun am yr aflonyddu a'r cam-drin hwn, a'u bod yn teimlo bod aflonyddu wedi cael ei normaleiddio. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â'n hymgynghoriad diweddar ar feysydd blaenoriaeth ar gyfer y Pwyllgor, gyda nifer o randdeiliaid yn codi hyn fel mater sy'n peri pryder. Fel Pwyllgor, byddwn yn ystyried adroddiad Estyn wrth lywio ein blaenraglen waith."

Jayne Bryant AS

Cadeirydd